OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 1348

# Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

## RHAN 6

Diwygio Rheoliadau Iechyd Anifeliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018

**Diwygio Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018**

**20.** Yn rheoliad 2 o Reoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018(**1**) (dehongli), yn lle'r diffiniad o "trydedd wlad", rhodder—

> "ystyr "trydedd wlad" ("*third country*") yw gwlad neu diriogaeth heblaw Ynysoedd Prydain;".

(**1**) O.S. 2018/650 (Cy. 122), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/737 (Cy. 140).